**Jeremy Miles AC/AM**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit**
**Counsel General and Brexit Minister**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

09 Ebrill 2019

Annwyl Mick,

Rwyf yn ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyrau dyddiedig 14 Mawrth a 21 Mawrth 2019, ynghylch Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019; Rheoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Amrywio Cydsyniadau) (Cymru) 2019; a Rheoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Ceisiadau am Gydsyniad) (Cymru) 2019.

Codwyd dau brif bwynt gan y Pwyllgor mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Yn gyntaf, bod y gwahaniaeth yn y defnydd o'r gair 'cenedlaethol' ar draws gwahanol offerynnau statudol yn ddryslyd ac yn rhwystr i'r darllenydd. Yn ail, nad yw dehongli'r gair 'cenedlaethol' i olygu'r Deyrnas Unedig yn parchu datganoli mewn modd digonol neu ystyriol.

Rwyf yn cydnabod y pwyntiau hyn a hoffwn roi sicrwydd i'r Pwyllgor y bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd camau er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb yn ei harferion yn y dyfodol. Weithiau, bydd rhaid i is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru ddefnyddio'r geiriau 'cenedlaethol' neu 'gwladol' i olygu'r Deyrnas Unedig, er enghraifft i fod yn gyson â'r ddeddfwriaeth bresennol, ond mae'n bwysig bod ystyr y geiriau yn glir ym mhob achos lle y maent yn cael eu defnyddio.

Mae Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn diwygio Canllawiau Drafftio Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, er mwyn cyhoeddi fersiwn newydd yn nes ymlaen eleni. Bydd hyn yn ystyried Bil Deddfwriaeth (Cymru) os caiff ei basio gan y Cynulliad, yn ogystal â phrofiad ers cyhoeddi'r fersiwn ddiwethaf o'r canllawiau. Bydd y canllawiau diwygiedig yn cynnwys pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor ac eraill, gan gynnwys materion a all godi o ran y geiriau 'cenedlaethol' neu 'gwladol'. Yn y cyfamser, bydd swyddogion yn cael gwybod am y materion a godwyd gan y Pwyllgor er mwyn codi ymwybyddiaeth a sicrhau eglurder yn y dyfodol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
PSCGBM@gov.wales/YPCCGB@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AC**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister